**Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ei waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft y Llywodraeth 2024 – 25**

## Tabl Cynnwys


Cludiant ........ 2

Bioamrywiaeth ........ 10

Morol ........ 13

Datgarboneiddio Tai ........ 15

Ynni Adnewyddadwy ........ 19

Gwastraff ........ 22

Cyfoeth Naturiol Cymru ........ 25

Dŵr a Llifogydd ........ 27

Llywodraethu Amgylcheddol ........ 29

**Cludiant**

**Argymhelliad 1**

Dylai'r Gweinidog egluro'r anghysondeb rhwng y dystiolaeth ysgrifenedig o £150 miliwn a ail-ddyrannwyd a Llinell Wariant Cyllideb (BEL) refeniw Trafnidiaeth Cymru (TrC) o £110.8 miliwn, sy'n nodi lle mae'r tua £40 yn cael ei gadw, a sut / pryd y caiff ei ddefnyddio.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd amcangyfrif cost cychwynnol TrC a dderbyniwyd yr haf diwethaf yn dangos bwlch gyda chyllideb ddangosol gyhoeddedig y llynedd o tua £150m. Yn sgil her y gyllideb ar draws Llywodraeth Cymru, rydym wedi gweithio'n agos gyda TrC i reoli'r bwlch hwn, gan gynnwys adolygiad o gostau a refeniw sydd wedi arwain at ostyngiad yn eu gofynion cyllidebol o £11m. Hefyd, rydym yn disgwyl i refeniw ychwanegol o incwm arall y flwyddyn nesaf gynyddu tua £19m gan gynnwys newid yn y broses o ddyrannu ac amcangyfri'r cyllid gan Lywodraeth y DU i weithredu, cynnal ac adnewyddu seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd y cytunwyd arno adeg trosglwyddo perchnogaeth y seilwaith hwn. Ni fydd gwerth terfynol y ffrydiau incwm hyn yn hysbys tan y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd a'r pwysau cyllidebol parhaus, rydym yn parhau i weithio gyda TrC i nodi opsiynau i leihau costau ymhellach a chynyddu refeniw dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 2**

Dylai'r Gweinidog amlinellu cynllun clir a manwl, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng costau rheilffyrdd a refeniw tocynnau trên yng nghyd-destun newid ym mhatrymau defnydd teithwyr a chwyddiant uchel. Dylai'r cynllun hwn nodi pryd fydd dim angen cyllid ychwanegol i TrC mwyach.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n debygol y bydd gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn ddibynnol ar lefel o arian cyhoeddus bob amser, ond mae'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru leihau'r lefel hon o gymhorthdal i lefel gynaliadwy. Mae refeniw defnydd a theithwyr yn gwella gyda gwasanaethau hirbell yn brysurach na'r cyfartaleddau cyn y pandemig, gyda dydd Sul yn benodol yn gweld twf. Mae hyn yn dechrau lleihau'r bwlch rhwng costau ac incwm, ac rydym yn gweithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru hefyd ar gyfres o fesurau fforddiadwyedd rheilffyrdd i leihau'r bwlch ymhellach.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl pennu dyddiad pan na fydd angen cyllid ychwanegol uwchlaw'r lefel cymhorthdal a bennwyd yn 2018. Mae hyn oherwydd y newid parhaus yn y galw gan deithwyr a'r defnydd o wasanaethau rheilffyrdd o'i gymharu â'r rhai y cynlluniwyd ar eu cyfer yn 2018. Bydd y mesurau fforddiadwyedd rheilffyrdd y mae Trafnidiaeth Cymru yn eu cyflawni yn rhan o'u cynllun busnes y byddwn yn eu monitro trwy brosesau llywodraethu presennol a mecanweithiau gwell.

**Argymhelliad 3.**

Dylai’r Gweinidog roi sicrwydd bod mesurau rheoli priodol ar waith i reoli’r gwaith o gyflawni’r prosiect Metro a darparu cerbydau newydd.

**Ymateb: Derbyn**

Gellir sicrhau'r pwyllgor bod sawl haen o lywodraethu yn goruchwylio Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, rhaglen ehangach Metro De Cymru, a'n buddsoddiad mewn cerbydau. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod manylion cynlluniau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â thimau cyflawni, yn ogystal â goruchwyliaeth strategol arferol ar lefel uwch.

Mae Trafnidiaeth Cymru’n defnyddio system adrodd wedi'i datblygu'n benodol sy'n darparu gwybodaeth am ddiogelwch, cost, rhaglen, perfformiad a risg yn uniongyrchol o'r prosiectau cyflawni i gynorthwyo cyfarwyddwyr i gyflawni adolygiadau misol. Caiff gwaith integreiddio cymhleth y rhaglen peirianneg a chyflenwi rhwng seilwaith newydd a phrofion cerbydau newydd ei fonitro'n ddyddiol gyda nifer o sefydliadau a disgyblaethau'n cyfrannu, er mwyn sicrhau bod unrhyw heriau yn y rhaglen cyflwyno fflyd yn cael eu datrys yn gyflym.

Rydym wedi gweithio'n galed gyda Trafnidiaeth Cymru i gynyddu atebolrwydd, craffu, ac yn bwysig tryloywder. Mae fforymau ac adroddiadau newydd wedi'u cyflwyno i rannu a chyhoeddi gwybodaeth. Mae hyn yn hollbwysig yng nghyd-destun cyfrifoldebau a chyllidebau cynyddol.

Rydym yn dechrau ar gamau olaf gwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd erbyn hyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r cerbydau newydd wedi'u cyflenwi bellach.

**Argymhelliad 4.**

Dylai'r Gweinidog ddiweddaru'r Pwyllgor ar gyflwyno cerbydau, gan gynnwys cyfanswm y trenau o bob math sydd wedi’u harchebu, lle bydd pob un yn gweithredu, faint sydd wedi'u darparu a'r cynllun ar gyfer cyflwyno’r gweddill gam wrth gam.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa bresennol o ran y cerbydau a archebwyd ar gyfer y fasnachfraint bresennol:

| Class of Train | Delivered | Awaiting | Total | Total delivered % | In daily service | In service % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 230 | 5 | 0 | 5 | 100% | 2 | 40% |
| 231 | 11 | 0 | 11 | 100% | 8 | 73% |
| 756 | 24 | 0 | 24 | 100% | 0 | 0% |
| 398 | 14 | 22 | 36 | 39% | 0 | 0% |
| 197 | 43 | 34 | 77 | 56% | 32 | 42% |
| Mark 4 | 7 | 0 | 7 | 100% | 4 | 57% |
| Total | 104 | 56 | 160 | 65% | 46 | 29% |
| | | | | | | |
| Trains required for average weekday services | | | | 111 | | |
| Percentage of trains in service which are new | | | | 41.4% | | |

Mae cerbydau Mark 4 a Dosbarth 197 yn drenau rhyngranbarthol sy'n rhedeg ar y gwasanaethau prif linell pellach. Mae modd defnyddio trenau Dosbarth 197 ar unrhyw un o wasanaethau Cymru a'r Gororau a byddant i gyd ar gael i wasanaethu erbyn canol 2025. Ar hyn o bryd, maen nhw'n rhedeg ar wasanaethau rhyngranbarthol ac ar Linell Wrecsam-Bidston. Dim ond ar linell Wrecsam-Bidston mae trenau Dosbarth 230 yn rhedeg.

Mae trenau Dosbarth 231 yn gweithredu ar linell Rhymni i Benarth. Bydd y rhain yn cael eu symud i wasanaethau ardal ehangach Metro De Cymru yn y dyfodol. Bydd trenau Dosbarth 756 a threnau tram Dosbarth 398 yn gweithredu ar Linellau Craidd y Cymoedd ac maent yn ddibynnol ar drydaneiddio uwchben. Cyflwynir hyn yn raddol o ganol 2024, gan ddod i ben ganol 2025.

**Argymhelliad 5.**

Dylai'r Gweinidog sicrhau bod TrC ac awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n effeithiol â theithwyr a dinasyddion eraill i egluro'n well y weledigaeth o system trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull a'r broses sy'n cael ei dilyn i gyflawni hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Trafnidiaeth Cymru’n cefnogi Awdurdodau Lleol a Chydbwyllgorau Corfforaethol i ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu Trafnidiaeth Rhanbarthol a fydd yn cyflwyno gweledigaeth pob rhanbarth ar gyfer cynllun trafnidiaeth integredig aml-ddull. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r holl ddinasyddion (teithwyr a rhai nad ydynt yn deithwyr) i ddeall eu blaenoriaethau a sut y gallwn wneud ein trafnidiaeth gyhoeddus mor ddiogel, hygyrch a chroesawgar â phosibl.

**Argymhelliad 6.**

Dylai'r Gweinidog egluro pa waith sydd wedi'i wneud i asesu effaith y dyraniadau yng nghyllideb 2024-25 ar lefelau gwasanaeth bysiau gan ystyried y gyllideb refeniw sy’n wastad yn fras ac effeithiau chwyddiant.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau cludiant priodol i deithwyr. Mae'r mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol yn ategu'r cymorth refeniw gan Lywodraeth Cymru gyda'u cronfeydd eu hunain. Felly nid yw'n bosibl asesu effaith ein cyllideb ar lefelau gwasanaeth bysiau.

Bydd y dyraniad cyllideb ar gyfer eleni'n golygu y bydd dros £115m yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau bysiau'n uniongyrchol.

**Argymhelliad 7.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am y newid yn y dull o ariannu bysiau, gan gynnwys manylion y ffrwd ariannu Ategol i Fysiau newydd a'i diben, yn ogystal â sut mae hyn yn wahanol i bob un o'r ffrydiau ariannu a ddaeth i ben gan roi'r fantais ym mhob achos.

**Ymateb: Derbyn**

Roedd hwn yn newid gweinyddol gan gyfuno llinellau cyllideb amrywiol llai. Bydd y newid hwn yn ein galluogi i reoli'r gyllideb mewn modd mwy dynamig. Byddaf yn fwy na pharod i nodi'r manylion yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb derfynol.

**Argymhelliad 8.**

Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithredu'r Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau.

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn cwblhau canllawiau ac amodau'r Grant Rhwydwaith Bysiau i Awdurdodau Arweiniol eu defnyddio i sicrhau gwasanaethau bysiau trwy eu dyletswyddau statudol ac wrth weinyddu'r cynllun gydag awdurdodau lleol yn eu rhanbarth.
Bydd yn cael ei ddarparu fel atodlenni atodol yn y llythyrau dyfarnu grant a gyhoeddir i Awdurdodau Arweiniol cyn i'r cynllun newydd ddechrau.

**Argymhelliad 9.**

Dylai'r Gweinidog egluro'r meini prawf ar gyfer dyrannu Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau a sut y bydd yn rhyngweithio â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau presennol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu'r grant o fewn y chwe mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau gyda Chymdeithas Cydgysylltwyr Trafnidiaeth Cymru (ATCO) a CLlLC i benderfynu a chytuno ar ddyraniad Grant Rhwydwaith Bysiau ar draws pob rhanbarth a dderbyniwyd yng nghyfarfod bwrdd gweithredol CLlLC a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2024.

Mae swyddogion wedi cael llawer o drafodaethau eisoes gyda rhanddeiliaid y diwydiant bysiau gan gynnwys cymdeithasau masnach, cynrychiolwyr trafnidiaeth awdurdodau lleol (ATCO) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i esbonio'r rhyngweithio rhwng y Grant Rhwydwaith Bysiau a'r grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau (BSSG) presennol.

Bydd y Grant Rhwydwaith Bysiau'n cael ei gyflwyno fel mecanwaith i ariannu awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau bysiau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol na fyddant yn cael eu darparu'n fasnachol pan ddaw'r cynllun BTF i ben ar 31 Mawrth 2024 ac yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir eisoes trwy'r BSSG. Bydd y Grant Rhwydwaith Bysiau ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2024 – 2025 tra bod adolygiad o'r BSSG yn digwydd oherwydd cymhlethdod y cynllun, gyda'r nod o gyfuno'r ddau gynllun yn un o 1 Ebrill 2025, gan weithredu fel pont i fasnachfreinio. Bydd yn rhoi mwy o reolaeth i awdurdodau lleol gynllunio gwasanaethau bysiau yn eu rhanbarthau hefyd yn ogystal â dod â sefydlogrwydd i rwydweithiau bysiau ledled Cymru.

**Argymhelliad 10.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am gynnydd ymdrechion trawslywodraethol i fynd i'r afael â'r rhwystrau trafnidiaeth y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth gael mynediad i addysg a chyflogaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Mae galluogi mwy o blant i gerdded, defnyddio sgwter a beicio i'r ysgol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i bob awdurdod lleol gynllunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio, ac rydym wedi gosod amod bod rhaid i bob ysgol gael ei gwasanaethu gan lwybrau teithio llesol. Hefyd, rydym yn annog awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflwyno Strydoedd Ysgol, sy'n golygu cau ffyrdd o amgylch ysgolion ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Rydym yn gwneud ffyrdd yn llefydd mwy diogel a chroesawgar i blant gerdded, beicio, a chwarae y tu allan, trwy osod terfynau cyflymder o 20mya yn ddiofyn ar strydoedd mewn ardaloedd adeiledig – ond gan roi'r gallu i Gynghorau eithrio ffyrdd.

Un o brif amcanion Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yw lleihau costau teithio cynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau i sicrhau bod teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a dewisiadau teithio llesol yn haws ac yn fwy fforddiadwy i bawb yn y gymuned. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyllidebol heriol yn golygu ein bod

wedi gorfod blaenoriaethu cyllid i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal gan gadw prisiau mor isel â phosibl yr un pryd.

**Argymhelliad 11.**

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ymdrechion i fynd i'r afael â materion capasiti a gallu llywodraeth leol mewn perthynas â theithio llesol. Dylai'r Gweinidog nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog awdurdodau lleol i wella cydweithredu er mwyn cynyddu capasiti.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Cydbwyllgorau Corfforaethol yn cydweithio â TrC i gynnwys eu blaenoriaethau Teithio Llesol yn eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynllun Datblygu Strategol i sicrhau bod teithio llesol yn cael ei integreiddio â dulliau trafnidiaeth eraill wrth gynllunio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth yn y dyfodol.

**Argymhelliad 12.**

Dylai'r Gweinidog egluro a fydd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer teithio llesol yn ddigonol i ariannu cynlluniau arfaethedig ac, os na, pa feini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu'r cynlluniau hyn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r rhan fwyaf o gyllid y Gronfa Teithio Llesol yn cael ei ddyrannu ar sail proses ymgeisio gystadleuol, gydag arian yn cael ei ddyfarnu i'r ceisiadau cryfaf. Cafodd y canllawiau ymgeisio a'r meini prawf sgorio eu rhoi i awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr 2023, ar ôl i awdurdodau lleol dderbyn yr allbynnau o'r offeryn blaenoriaethu llwybrau ym mis Hydref.

**Argymhelliad 13**

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y chwe mis nesaf ar y cynnydd a wnaed wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn rhannu diweddariad cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 14.**

Dylai'r Gweinidog egluro a yw cyllid wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer hyrwyddo teithio llesol yn unol â'u dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf Ansawdd Aer a Seinweddau.

**Ymateb: Derbyn**

Ni chafwyd dyraniad cyllid i awdurdodau lleol yn benodol ar gyfer eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf hon, a ddaw i rym erbyn diwedd 2024 pan fydd y darpariaethau perthnasol yn cychwyn. Cyn hynny, byddwn yn datblygu canllawiau statudol, mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 15.**

Dylai'r Dirprwy Weinidog roi rhagor o fanylion am gynlluniau ar gyfer annog defnyddio beiciau trydan, gan gynnwys a yw cyfleoedd ariannu arloesol wedi'u harchwilio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gennym gyllid estynedig ar gyfer y prosiect E-symud a'r prosiectau 'Seeing cycling differently' tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24 ac mae'r ddau gynllun yn parhau i gasglu data monitro sy'n rhoi dealltwriaeth werthfawr am y defnydd o e-feiciau ac e-feiciau cargo. Mae Sustrans, sy'n cyflwyno prosiect E-symud, yn cynnal trafodaethau gyda sefydliadau amrywiol i drafod yr opsiynau gorau i alluogi defnydd buddiol parhaus o feiciau fflyd. Bu'n rhaid gohirio gwaith a gynlluniwyd ar sefydlu cynllun benthyciad prynu e-feiciau di-log, gan ddefnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol oherwydd pwysau cyllidebol a olygai na ellid ariannu costau gweinyddu'r cynllun.

**Argymhelliad 16.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r Llinell Wariant Cyllideb Cyfalaf Bysiau a chyllid teithio llesol, gan gynnwys gwariant y pen. Gofynnwn i gyfres pum mlynedd gael ei darparu ar gyfer pob un fel yn y blynyddoedd diwethaf.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn darparu dadansoddiad o'r cyllid cyfalaf Teithio Llesol ym mis Mai 2024.

**Argymhelliad 17.**

Dylai'r Gweinidog egluro sut y caiff yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb, o ran proses y gyllideb a'r lefelau cyllido penodol a ddyrennir i bob lefel.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Strategaeth Trafnidiaeth Cymru'n blaenoriaethu gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol drwy ei gynnal a'i reoli'n dda a'i addasu i newid yn yr hinsawdd a dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Pan fydd angen seilwaith

newydd, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ymyriadau sy'n cefnogi cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros gerbydau modur preifat eraill.

Defnyddir yr hierarchaeth i lywio penderfyniadau ar y prosiectau y mae Llywodraeth Cymru’n eu datblygu neu’n eu cefnogi. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â'r hierarchaeth oherwydd bod gan ymyriadau gwahanol gostau gwahanol. Er enghraifft, gall un prosiect buddsoddiad rheilffyrdd newydd gostio sawl gwaith mwy na’r hyn mae'n ei gostio i gynnal a chadw’r seilwaith presennol.

## Bioamrywiaeth

**Argymhelliad 18.**

Pe bai amgylchiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn gwella, dylai'r Gweinidog ystyried cynyddu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer 2024-25 i ehangu a chynyddu’r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

**Ymateb: Derbyn**

Pe bai cyllid ychwanegol ar gael, byddaf yn ystyried cynyddu'r dyraniad cyllideb ar gyfer y Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn unol ag argymhelliad yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth i gynyddu maint a chyflymder y ddarpariaeth i helpu i gyrraedd ein targed 30x30.

O ystyried y pwysau ar y pwrs cyhoeddus, byddwn yn parhau i archwilio'r cyfleoedd am arian ychwanegol o ffynonellau eraill i gefnogi ein huchelgeisiau adfer natur.

Byddwn yn ceisio alinio buddsoddiad cyfalaf hefyd lle mae canlyniadau ar y cyd megis cynnig dalgylch Teifi sydd â'r potensial i gyflawni canlyniadau lluosog.

**Argymhelliad 19.**

Dylai’r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig yn cael ei gostio i gefnogi buddsoddiad cyhoeddus strategol ym myd natur, gwella tryloywder a chefnogi gwaith craffu.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae datblygu camau gweithredu hirdymor wedi’u costio yn heriol o ystyried pwysau prisiau oherwydd chwyddiant. Fodd bynnag, rwy'n barod i ystyried costio'r camau gweithredu tymor byr strategol.

Fodd bynnag, bydd y cynllun yn dangos sut y bydd 'Tîm Cymru' yn cymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a gweithredoedd y cynllun, a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu.

Ochr yn ochr â'r gwaith datblygu targedau bioamrywiaeth byddwn yn adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur i adlewyrchu'r targedau sy'n dod i’r amlwg a byddwn yn ffurfio ein strategaeth a'n cynllun gweithredu mewn ymateb i'r targedau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Hefyd, bydd cyfres o ddangosyddion yn cael eu datblygu i fonitro cynnydd.

**Argymhelliad 20.**

Dylai’r Gweinidog egluro sut y mae’n gweithio ar y cyd â’r Gweinidog dros Faterion Gwledig i sicrhau’r effaith orau bosibl o arian cyfyngedig ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy’r Cynllun Datblygu Cynaliadwy arfaethedig.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y cabinet gan gynnwys y Gweinidog Materion Gwledig i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio i benderfyniadau ar draws y cabinet i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn allweddol wrth gyflawni ein huchelgeisiau mewn perthynas ag argyfwng 30x30 a natur, yn enwedig trwy elfennau dewisol a chydweithredol. Rydym wedi cynnwys cynigion yn Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y bydd 10% o bob fferm yn cael ei rheoli fel cynefin a fydd o fudd i amrywiaeth eang o rywogaethau hefyd.

Ar ôl i'r ymgynghoriad presennol ddod i ben, byddaf i a swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a chydweithwyr gan gynnwys CNC i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy’n darparu ar gyfer bioamrywiaeth pan gaiff ei lansio yn 2025 a thrwy'r cyfnod pontio wrth i'r cynllun ddatblygu ymhellach.

**Argymhelliad 21.**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu model cyllid arloesol a chynaliadwy i sicrhau adferiad natur. Dylai hyn gynnwys y drafft egwyddorion arweiniol ar gyfer buddsoddi preifat cyfrifol i gefnogi adferiad byd natur.

**Ymateb: Derbyn**

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer adfer byd natur mewn chwe mis, gan gynnwys yr egwyddorion drafft. Bydd cynyddu maint a chyflymder y camau gweithredu i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chyrraedd nodau byd-eang erbyn 2030 yn gofyn am arallgyfeirio cyllid sydd ar gael. Byddaf yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd am gyllid ychwanegol sy'n osgoi gwyrddgalchu, ac sy'n adlewyrchu marchnad drachywir wedi'i harwain gan werthoedd, ar gyfer buddsoddiad cyfrifol sy'n helpu i sicrhau llesiant cadarnhaol i Gymru yn gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

**Argymhelliad 22.**

Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod y model cyllid /arloesol a chynaliadwy yn cael ei gwblhau cyn y broses o gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2025-26 a'i defnyddio i lywio penderfyniadau gwariant.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r model darparu cynaliadwy yn rhan bwysig o gynyddu cyflymder y ddarpariaeth ar gyfer adfer natur, fodd bynnag, ei ffocws yn bennaf yw edrych ar gyllid ychwanegol i'r hyn a ddarperir gan y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae fy swyddogion, ochr yn ochr â'r sector amgylcheddol, wedi bod yn gweithio gyda Thrysorlys Cymru a'r Grŵp Cynghori ar Wella Busnes i sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i chynnwys yng Nghynllun Gwella Busnes diweddaraf Trysorlys Cymru dan elfen Atal ochr yn ochr â newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth wedi'i hintegreiddio'n well i waith Cynllunio Cyllideb a'i defnyddio i lywio penderfyniadau gwariant.

**Argymhelliad 23.**

Dylai'r Gweinidog egluro faint o gyllid sydd wedi'i ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2024-25 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu Plymio Dwfn Bioamrywiaeth, ac ymrwymo i gyhoeddi'r ail ddiweddariad bob dwy flynedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu cyn diwedd mis Chwefror 2024.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'n anodd darparu dyraniad penodol ond dyrannwyd tua £19m i barhau i gyflawni mentrau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion megis y Rhwydweithiau Natur, Ardal Warchodedig Forol a Rhaglenni Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol, prosiectau LIFE a Natur am Byth. Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer Partneriaethau Natur Lleol a thrwy'r cynllun Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol hefyd i gefnogi gweithredu lleol.

Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i adrannau eraill yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion hefyd, er enghraifft drwy Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a chymorth i ffermwyr drwy gynllun Cynefin Cymru.

Dyrannwyd £500k arall i barhau â gwaith y tasglu bioamrywiaeth sydd â'r nod o gydlynu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu o brif-ffrydio penderfyniadau ar draws y llywodraeth a chyda phartneriaid er budd bioamrywiaeth.

Nid yw rhai o'r argymhellion wedi gofyn am ddyrannu cyllid penodol iddynt ond maent yn cael eu datblygu. Er enghraifft, datblygu targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer bioamrywiaeth ac adnewyddu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gweithredu'r amddiffyniad polisi a roddir i SoDdGA drwy Bolisi Cynllunio Cymru.

Rwyf wedi ymrwymo i gyhoeddi'r ail ddiweddariad bob dwy flynedd, fodd bynnag, oherwydd pwysau adnoddau ar ddatblygu a chyhoeddi'r papur gwyn ar dargedau, bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2024 yn awr.

**Morol**

**Argymhelliad 24.**

Dylai'r Gweinidog dawelu meddyliau'r Pwyllgor na fydd y gostyngiad mewn cyllid refeniw o £1.9 miliwn i £1.7 miliwn yn cael effaith andwyol ar feysydd polisi morol hanfodol, yn enwedig prosiectau parhaus fel y prosiect "Asesu gweithgareddau pysgota Cymru mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig."

**Ymateb: Derbyn**

Mae cyllid ar draws rhaglenni morol wedi cael ei flaenoriaethu i sicrhau nad yw'r dyraniad cyllideb is eleni yn effeithio ar y ddarpariaeth hanfodol ar gyfer y rhaglenni presennol. Gallaf gadarnhau bod cyllid, sy'n cyfateb i gyllid y llynedd, wedi'i ddyrannu unwaith eto i brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru, ar gyfer y rownd nesaf o asesiadau.

**Argymhelliad 25**

Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am ffrydiau ariannu amgen a chyfleoedd partneriaeth sy'n cael eu harchwilio i liniaru effaith y gostyngiad o £250,000 yn y gyllideb. Dylai hyn gynnwys strategaethau penodol ar gyfer ariannu prosiectau mewn meysydd hanfodol fel cadwraeth morwellt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae mecanweithiau cyllido amgen ar gael gan gynnwys y Gronfa Rhwydweithiau Natur sy'n ceisio cynigion i wella cyflwr y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Yn yr un modd mae Cynllun Grant Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn fecanwaith sy'n gwahodd cynigion sy'n gwella cadernid a rheolaeth y rhwydwaith. Mae rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â chadwraeth morwellt wedi cael gwybod am y cynlluniau hyn.
Ar ben hynny, mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru'n datblygu mecanwaith ariannu gwirfoddol, Cronfa Cadernid a Gwella Ecosystemau Naturiol Cymru (MARINE) i gefnogi gweithredoedd ecolegol ac economaidd-gymdeithasol i wella cadernid yr amgylchedd morol.

**Argymhelliad 26.**

Dylai'r Gweinidog ailadrodd yr ymrwymiad i'r rhaglen dynodi Parth Cadwraeth Morol (MCZ) a chadarnhau na fydd y dyraniadau diweddaraf yn y gyllideb yn rhwystro cynnydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar safleoedd Parth Cadwraeth Morol arfaethedig sydd wedi'i drefnu ar gyfer Gwanwyn 2024.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n parhau i ymrwymo i gyflawni'r rhaglen dynodi Parth Cadwraeth Morol. Mae swyddogion yn parhau i ddatblygu ac asesu argymhellion ar gyfer safleoedd posibl

yn y dyfodol a fydd yn mynd i'r afael â'r diffygion mewn cynefinoedd yn ein rhwydwaith. Ni fydd dyraniadau'r gyllideb yn effeithio ar y prosiect hwn, fodd bynnag, mae amserlenni ar gyfer ymgynghori wedi'u gohirio tan y gaeaf eleni.

**Argymhelliad 27.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu amserlen glir a manwl ar gyfer cyflawni asesiadau effaith rheoleiddiol a phenderfyniadau lleoliad safle ar gyfer cwblhau'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA).

**Ymateb: Derbyn**

Bydd gwahoddiad i dendro’n cael ei ryddhau'r mis hwn i gyflwyno asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer safleoedd arfaethedig. Bydd yr asesiad hwn yn rhan hollbwysig o'r argymhellion terfynol ar gyfer y safleoedd arfaethedig i'w cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad yn ystod y gaeaf eleni.

**Argymhelliad 28.**

Dylai'r Gweinidog egluro sut y mae'n gweithio ar y cyd â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i sicrhau'r effaith gorau posibl o arian cyfyngedig ar gyfer polisïau morol, yn enwedig drwy ddyraniadau ar gyfer pysgodfeydd a materion cysylltiedig.

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf wedi cydweithio'n agos â'r Gweinidog Materion Gwledig i wneud y mwyaf o effaith cyllid pysgodfeydd ar yr amgylchedd morol. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Morol a Physgodfeydd Cymru sy'n darparu cyllid ar gyfer pysgodfeydd a'r amgylchedd morol. Er enghraifft, mae'r Gronfa Adeiladu Capasiti mewn Cymunedau Arfordirol fel rhan o'r cynllun hwn yn darparu tua £1m er mwyn helpu i gynnwys cymunedau lleol wrth reoli'r amgylchedd morol.

## Datgarboneiddio Tai

### Argymhelliad 29.

Dylai'r Gweinidog egluro'r canlyniadau disgwyliedig o'r buddsoddiad cyfalaf o £35m yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes ar gyfer 2024-25, gan gynnwys amcanestyniad o nifer y cartrefi a fydd yn elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni.

**Ymateb: Derbyn**

Y dyraniad cyllideb ar gyfer y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn 2024-25 yw £30m ar gyfer y cynllun newydd sy'n seiliedig ar alw a £5m o grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith adfer sy'n gysylltiedig â chynlluniau hanesyddol. Bydd y £30m yn ein helpu i gyflawni dau amcan y cynllun o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd trwy gynorthwyo'r rhai sydd leiaf abl i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw a sicrhau trosglwyddiad cyfiawn a fforddiadwy i gartrefi carbon isel. Bydd nifer y cartrefi sy'n cael eu trin yn dibynnu ar y cymysgedd o eiddo y mae ymgeiswyr yn eu cyflwyno i gael cymorth ac felly gymhlethdod y mesurau a argymhellir. Fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif y bydd 1,500 o aelwydydd incwm isel yn elwa bob blwyddyn.

Bydd canlyniadau cadarnhaol sylweddol i unigolion oherwydd y rhaglen hon. Rydym yn ceisio cyfanswm o £45 miliwn o ostyngiad mewn biliau ynni dros oes y rhaglen. Rhagwelir hefyd y bydd y gwelliannau effeithlonrwydd ynni’n galluogi aelwydydd mewn tlodi tanwydd i wresogi eu cartrefi i lefel fwy cyfforddus, ac yn ogystal â chysur thermol, bydd cartrefi cynhesach a sychach yn dod â manteision iechyd i breswylwyr.

Hefyd, rydym yn disgwyl gweld manteision sylweddol i gymdeithas oherwydd y gostyngiad mewn allyriadau carbon, wedi'i fodelu ar dros 2 filiwn tunnell dros oes y rhaglen. Bydd gosodwyr a gweithgynhyrchwyr technolegau carbon isel ar eu hennill hefyd, gan fod y contract gyda'r asiant cyflenwi yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio gosodwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd hyn yn dod â mwy o incwm i'r crefftwyr lleol hyn a bydd yn cynhyrchu'r angen am fwy o weithwyr medrus yn y busnesau hyn. Mae'r refeniw ychwanegol hwn ar gyfer y crefftwyr lleol yn debygol o gael ei wario'n lleol, gan ledaenu effeithiau cadarnhaol y cynllun ymhellach. Bydd cefnogi gosod technolegau carbon isel yn adeiladu'r gadwyn gyflenwi a fydd yn hollbwysig wrth drosi'n ehangach i economi carbon isel.

### Argymhelliad 30.

Dylai'r Gweinidog ddarparu amserlen ddangosol ar gyfer datblygu cynllun wedi'i gostio'n llawn ar gyfer datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol presennol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Gwnaed cynnydd o dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP), i ddeall sut i ôl-osod stoc tai cymdeithasol Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol. Fodd bynnag, mae darparu cost gywir yn heriol gan fod tai cymdeithasol yng

Nghymru yn amrywiol ac felly byddai'n naïf defnyddio dull un maint i bawb. Gan adeiladu ar y cynnydd o'r ORP, lansiwyd Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 fis Hydref diwethaf gyda gofynion ychwanegol i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru gynnal Asesiadau Stoc Cyfan a chreu Llwybrau Targedau Ynni ar gyfer pob cartref erbyn 31 Mawrth 2027. Cyflwynwyd hyn i ddarparu dealltwriaeth fwy cywir o'r gwaith i'w gwblhau i ddatgarboneiddio'r stoc bresennol o dai cymdeithasol a meithrin dull wedi'i gostio a'i gynllunio er mwyn i'r holl dai cymdeithasol presennol fodloni categori ‘A’ y Dystysgrif Perfformiad Ynni.

Mae'r anhawster o ran darparu darlun cywir o gostau wedi'i waethygu gan yr anawsterau mae landlordiaid cymdeithasol yn eu cael wrth gaffael cyflenwyr cynhyrchion a gwasanaethau addas yn enwedig y rhai sydd wedi'u hachredu i'r safonau priodol. Trwy ORP, rydym yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol ar hyn o bryd i ddeall gwir gostau, rhwyddineb mynediad cadwyni cyflenwi ac argaeledd gweithwyr proffesiynol medrus i ymgymryd â'r gwaith.

Er mwyn deall maint yr her, mae angen deall ac ystyried pob ongl, gan gynnwys gallu landlordiaid i gael gafael ar gyllid i helpu i gyflawni'r gwaith. Dim ond rhan o'r ateb datgarboneiddio tai cymdeithasol fydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru. Gan weithio mewn partneriaeth â nifer o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, mae grŵp gorchwyl a gorffen yn archwilio'r opsiynau cyllido sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys modelau ariannol, opsiynau treialu a rhannu gwybodaeth.

**Argymhelliad 31.**

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

- canfyddiadau'r adolygiad o ddosbarthiad cyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio; a'r
- cynnydd tuag at gytuno ar ddull ariannu hirdymor i gefnogi'r sector tai cymdeithasol i ddatgarboneiddio.

**Ymateb: Derbyn**

Mae adborth cynnar gan landlordiaid cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru am weithrediad yr iteriad presennol o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) yn gadarnhaol. Yn benodol, y ffaith ei bod yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynwysoldeb yn enwedig ers y symud i system seiliedig ar stoc yn hytrach na phroses gynnig gystadleuol.
Mae tystiolaeth ragarweiniol yn awgrymu bod llawer o'r landlordiaid cymdeithasol hynny a oedd ar ddechrau eu taith datgarboneiddio ar ddechrau ORP wedi cyflymu i lefelau tebyg ac ar adegau yn debyg i'r rhai sydd wedi bod ar y siwrnai am gyfnod hwy.
Mae swyddogion yn parhau i asesu'r cylch presennol o ORP, drwy'r mecanwaith dosbarthu diwygiedig ac yn ystyried dulliau i wella dosbarthiad cronfeydd ym mlwyddyn ariannol 24-25 yn benodol er mwyn gallu dosbarthu arian mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn.

Bydd swyddogion yn dechrau adolygu'r canlyniadau’n fanwl ym mlwyddyn ariannol 24-25. Mae'r tîm wedi casglu cryn dipyn o ddata meintiol ac ansoddol hyd yma, ac yn parhau i wneud hynny. Dylai'r wybodaeth hon osod sylfaen gadarn i ddeall yr hyn sydd ei angen nesaf a phan gaiff ei chyfuno â'r Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio Preswyl sy'n cael ei ddrafftio gan y Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio dylai helpu i osod strategaeth glir a ffordd ymlaen.

Lansiwyd Hwb Carbon Sero Net (https://zerocarbonhwb.cymru/) yn ddiweddar sy'n cynnwys ffrwd waith cyllid bwrpasol i helpu i ddeall a llywio dulliau cyllido posibl ar gyfer datgarboneiddio'r sector tai cymdeithasol. Dylai hyn, ynghyd â'r grŵp gorchwyl a gorffen a grybwyllwyd uchod yn argymhelliad 30, helpu i ddadansoddi a deall yr opsiynau cyllido sydd ar gael. Fodd bynnag, nid mater i Lywodraeth Cymru’n unig yw'r dull cyllido hirdymor, ond mater i landlordiaid cymdeithasol yw deall eu stoc yn iawn a chreu cynlluniau ariannol yn seiliedig ar y wybodaeth a'r offer a ddarparwyd, gan gynnwys rhai gan Lywodraeth Cymru.
Mae gan yr Hwb sawl ffrwd waith gan gynnwys Sgiliau Sero Net, cadwyn gyflenwi a fforwm polisi. Mae disgwyl i gymuned ar-lein Hwb sy'n cynnwys aelodau staff o Awdurdodau Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Llywodraeth Cymru lansio ym mis Ebrill. Y nod yw rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

**Argymhelliad 32.**

Dylai’r Gweinidog egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â’r sector sy’n ‘gallu talu’ i annog deiliaid tai i ôl-osod eu cartrefi.

**Ymateb: Derbyn**

Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi targedu datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yn y lle cyntaf, gan gytuno i flaenoriaethu buddsoddiad mewn tai cymdeithasol drwy'r cyllid sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP).

Mae ein Rhaglen Cartrefi Cynnes yn canolbwyntio ar aelwydydd sydd â'r lleiaf o allu i dalu am welliannau eu hunain yn y sectorau perchen-feddiannwr, rhent preifat a chwmnïau tai cydweithredol. Rydym ar y trywydd iawn i lansio ein Rhaglen Cartrefi Cynnes newydd ar 1 Ebrill. Y cynllun newydd fydd ein prif ddull o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a mynd i'r afael â'r nod o leihau effeithiau hinsawdd ein stoc dai. Bydd pob cartref yng Nghymru, nid yn unig y rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o dlodi tanwydd, yn parhau i fod yn gymwys i fanteisio ar y rhaglen newydd am gyngor a chymorth ar y ffordd orau o ariannu'r mesurau hyn. Mae Llywodraeth Cymru’n cydnabod bod angen cyngor o ansawdd da a dibynadwy ar ddeiliaid tai i fynd ar daith ddatgarboneiddio a chredwn ei bod hi'n bwysig bod y cyngor a roddir dan y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn annibynnol ar unrhyw osodiadau a wneir gan y cynllun, er mwyn cynnal hyder yn y cyngor sy'n cael ei ddarparu.

Fel y nodir isod yn argymhelliad 33, rydym wrthi'n datblygu cynllun peilot 'profi a dysgu' hefyd gyda Banc Datblygu Cymru a fydd yn targedu'r sector 'sy'n gallu talu' i'w roi ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 24-25 gobeithio.

Mae ardal parth cyhoeddus Hwb Carbon Sero Net a lansiwyd yn ddiweddar yn cynnig cipolwg ar astudiaethau achos y gall perchen-feddianwyr eu gweld i helpu i ddeall gweithgareddau ôl-osod.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddatgarboneiddio wedi'i herio i greu map trywydd ar gyfer datgarboneiddio pob cartref presennol yng Nghymru gan gynnwys y sector 'sy'n gallu talu'. Dylai hyn nodi targedau uchelgeisiol, atebion arloesol, a chynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru ei ystyried.

Dylai'r map trywydd, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd drwy'r ORP, helpu i ddatblygu rhaglen bolisi a chostau yn y dyfodol er mwyn ymgysylltu â'r sector 'sy'n gallu talu' a normaleiddio'r gofyniad i sicrhau bod cartrefi Cymru'n iach ac o ansawdd da.

**Argymhelliad 33.**

Dylai'r Gweinidog: ▪ egluro lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2024-25 i gefnogi'r cynllun peilot 'profi a dysgu' ar gyfer perchen-feddianwyr sy'n gallu talu; a ▪ darparu rhagor o fanylion am y cynllun peilot, gan gynnwys ei hyd a sut y bydd canlyniadau'r cynllun yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Cynllun gan gynnwys ei feini prawf gwerthuso a monitro wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ond nid ydym wedi cytuno ar y fersiwn derfynol eto tan fod y sefyllfa ariannu'n glir. Mae hyn er mwyn cydnabod bod adnoddau staffio'n gyfyngedig a bod angen eu blaenoriaethu ar y pethau cywir ar yr adeg gywir. Os bydd y cais am gyllid yn llwyddiannus, byddwn yn cyhoeddi manylion pellach am y cynllun.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau cyllid mewnol i ddeall gofynion cyflawn a chyfansoddiad posibl y cynllun peilot hwn. Bydd yn amodol hefyd ar ddyraniadau cyllideb terfynol a chais Cyfalaf Trafodiadau Ariannol llwyddiannus. Bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei ddarparu gan Fanc Datblygu Cymru mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Mae cyllid Cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn ddilys am un flwyddyn ariannol ond gellir gwneud ceisiadau dilynol ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## Ynni Adnewyddadwy

### Argymhelliad 34.

Dylai'r Gweinidog:

- ddarparu manylion am waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i asesu anghenion buddsoddi tymor byr a chanolig ar gyfer cyflawni ei thargedau ynni adnewyddadwy newydd; ac
- esbonio sut mae'r targedau hyn wedi dylanwadu ar ddyraniadau cyllideb ddrafft 2024-25.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd ein gwaith yn gweithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn ar Ynni Adnewyddadwy ac ymgorffori'r camau gweithredu yn ein gwaith ar draws y llywodraeth yn cefnogi'r camau sydd eu hangen i gyrraedd ein targedau. Mae'r gwaith cynllunio ardal ar y gweill a bydd tystiolaeth o'r gwaith hwn yn rhoi eglurhad pellach ar sut i ddatgarboneiddio'r maes cynhyrchu ynni yng Nghymru. Gydag Awel y Môr bellach wedi cael caniatâd, bydd hyn yn cyfrannu tuag at ein targedau. Rydym yn gweithio gyda datblygwyr ar draws yr holl dechnolegau i ddarparu ynni cynaliadwy i gymunedau Cymru. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella ein cyfundrefnau cydsynio yn barhaus.

### Argymhelliad 35.

Dylai’r Gweinidog egluro sut mae hi’n gweithio ar y cyd â Gweinidog yr Economi i ddatblygu sgiliau ac arbenigedd o fewn y gweithlu i gefnogi cyflawni’r targedau ynni adnewyddadwy newydd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net i Gymru wedi darparu fframwaith trosfwaol i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r cyfleoedd sydd gennym yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion, prifysgolion, colegau a diwydiant i sicrhau bod gennym y sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy. Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sy'n gweithredu ar draws 4 rhanbarth Cymru, yn rhoi cipolwg amhrisiadwy ar y sgiliau sydd eu hangen ledled y wlad.

### Argymhelliad 36.

Dylai'r Gweinidog roi rhagor o fanylion am nodau Trydan Gwyrdd Cymru; ei amcanion tymor byr, canolig a hir;  a threfniadau gweithredol rhwng y cwmni a Llywodraeth Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Trydan Gwyrdd Cymru yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2024. Ei ddiben yw cadw cymaint â phosibl o fanteision economaidd a chymdeithasol datblygiadau adnewyddadwy ar dir cyhoeddus Cymru, y gellir eu defnyddio i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Bydd blaenoriaethau cychwynnol yn ymwneud â sefydlu llif o brosiectau posibl. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth unwaith y bydd y corff wedi'i lansio.

**Argymhelliad 37.**

Dylai'r Gweinidog egluro; ▪ y dyraniad refeniw yng nghyllideb ddrafft 2045-25 i gefnogi gwaith Trydan Gwyrdd Cymru; a ▪ pa Linell Wariant Cyllideb mae'r dyraniad cyfalaf o £4.5m ar gyfer Trydan Gwyrdd Cymru yn perthyn iddi, a pha allbynnau y disgwylir i'r dyraniad hwn eu cyflawni.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y dyraniad yn 2024-25 yn cael ei gwblhau yn agosach at lansiad y cwmni. Mae'r dyraniad cyfalaf yn perthyn i Linell Wariant Cyllideb 2809. Bydd y cyllid yn cefnogi datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy.

**Argymhelliad 38.**

Dylai'r Gweinidog sicrhau, ar gyfer cyllidebau drafft yn y dyfodol, fod gan Trydan Gwyrdd Cymru Linell Wariant Cyllideb ar wahân (yn unol â'r dull a ddefnyddir ar gyfer Ynni Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru) i wella tryloywder a chefnogi craffu.

**Ymateb:  Derbyn mewn egwyddor**

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn un o sawl mecanwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i helpu i gynhyrchu adnewyddadwy. Mae datblygiad y prosiect yn dibynnu ar sawl newidyn y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r strwythur presennol yn caniatáu hyblygrwydd i ddyrannu cyllid lle y gellir cyflawni'r ddarpariaeth orau mewn unrhyw flwyddyn.

**Argymhelliad 39.**

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i ddatblygu dulliau ariannu i sicrhau y gellir cadw perchnogaeth Gymreig ar brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ar y stad gyhoeddus yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Trydan Gwyrdd Cymru a sefydliadau eraill. Bydd Llywodraeth Cymru'n fwy na

pharod i roi diweddariad, a fydd yn dilyn sefydlu Trydan Gwyrdd Cymru a chytundeb gyda'r cwmni ar adnoddau ac amseru'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 40.**

Dylai'r Gweinidog egluro pa brosiectau/allbynnau y disgwylir i'r dyraniad cyfalaf gwerth £10m ar gyfer Ynni Cymru eu cyflawni.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Ynni Cymru'n ehangu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned a systemau ynni lleol clyfar, lle caiff y buddion eu cadw yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu achos busnes Ynni Cymru, er mwyn amlinellu cwmpas y cwmni, ei gylch gwaith a'i ffiniau gwaith. Ar y cyd â hyn, maent yn datblygu ac yn cyrchu llif o brosiectau posibl i Ynni Cymru eu cefnogi.

Bydd diweddariad pellach ar gynnydd ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

**Gwastraff**

**Argymhelliad 41**.

Dylai'r Gweinidog egluro a fydd cyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer 2024-25 yn cael ei gynnal i gefnogi cyflawni'r targed statudol o ailgylchu 70% erbyn 2025.

**Ymateb: Derbyn**

Mae dyrannu cyllid cyfalaf (£46.853m) i gefnogi Awdurdodau Lleol yn cael ei lywio drwy ymgysylltu â nhw ar y prosiectau maen nhw'n eu datblygu, a maint ac amseriad eu hanghenion cyllido. Byddwn hefyd yn cadw cymaint â phosibl o'r cyllid refeniw drwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (SWMG) sy'n cefnogi costau gweithredol Awdurdodau Lleol i wella eu perfformiad. Bydd yr union lefel yn cael ei hegluro unwaith y bydd y dadansoddiad terfynol o'r gyllideb yn y maes hwn wedi'i benderfynu.

**Argymhelliad 42.**

Dylai'r Gweinidog egluro sut y bydd effaith y gostyngiad mewn dyraniad refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024-25 ar gynnydd tuag at dargedau gwastraff ar gyfer 2025 (a nodir yn Mwy nag Ailgylchu) yn cael ei monitro.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r cyllid cyfalaf a ddyrannwyd (£46.853m) yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth o ofynion ariannu'r prosiectau Awdurdod Lleol sy'n cael eu datblygu a'u darparu ar gyfer 24-25 a byddwn yn cadw cymaint â phosibl o'r cyllid refeniw drwy'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy felly ni fydd gostyngiad sylweddol yn effeithio ar gyflawni targedau ailgylchu i'w tracio. Yn seiliedig ar gynlluniau'r Awdurdod Lleol sydd ar y gweill ar hyn o bryd, dyrannwyd digon o adnoddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro darpariaeth Awdurdodau Lleol yn erbyn y targedau gofynnol statudol a datblygu a chyflawni eu cynlluniau gwella.

**Argymhelliad 43.**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at ddatblygu targedau ailgylchu statudol newydd. Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd, gan gynnwys ar y gwaith i ddiweddaru'r Glasbrint lle rydym eisoes wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y dull o ddatblygu targedau ailgylchu yn y dyfodol

**Argymhelliad 44.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion dyraniad cyllideb ar gyfer 2024-25 i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes a'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu ill dau yn cael eu darparu fel prosiectau ar y cyd ledled y DU. O'r herwydd, mae'r cyllid ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau yng Nghymru yn rhan o'r dyraniad ehangach gan Drysorlys EF o gronfeydd y DU i DEFRA.

Mae trafodaethau gyda DEFRA ar oblygiadau ariannol y cynlluniau yn parhau, er enghraifft y cyllid sydd ei angen er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi ar gyfer ei rôl yn rheoleiddio'r cynlluniau. Mae costau Llywodraeth Cymru yn cael eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol

**Argymhelliad 45.**

O fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at gyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Dylai hyn gynnwys a yw'r Cynllun yn parhau i fod ar y trywydd iawn i fynd yn fyw ym mis Hydref 2025.

**Ymateb: Derbyn**

Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda swyddogion y tair gwlad arall ar ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Fodd bynnag, mae'r amserlen wrthi'n cael ei hadolygu yn dilyn effaith penderfyniad Deddf Marchnad Fewnol y DU sydd wedi atal y Cynllun Dychwelyd Ernes rhag mynd yn fyw yn yr Alban. Mae wedi arwain at sgil-effeithiau gyda'r angen i edrych ar y goblygiadau i ryngweithredu'r cynlluniau ar draws y pedair gwlad. Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad a'r effaith ar y dyddiad gweithredu yn ôl y gofyn.

**Argymhelliad 46.**

Dylai'r Gweinidog:

- esbonio sut y bydd effaith y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei monitro; ac
- egluro ei safbwynt ar ddyfodol y cynllun.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru, yn parhau i fonitro canlyniadau Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol a chyhoeddi adroddiad blynyddol.

Er na fyddwn yn gallu agor y Cynllun Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi i gynigion prosiect newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, rydym yn cynnal cyllid i gefnogi prosiectau presennol. Bydd y gyllideb ar gael i gefnogi rhai prosiectau pellach. Rwy'n bwriadu egluro ein cynlluniau ar gyfer dyfodol y Cynllun a gaiff ei lywio gan asesiad o'i effaith ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Argymhelliad 47.**

Dylai’r Gweinidog ddarparu amlinelliad manwl o gam nesaf datblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys y meysydd i'w cwmpasu a'r amserlenni ar gyfer eu gweithredu.

**Ymateb: Gwrthod**

Fel y soniodd CNC yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, cytunwyd ar y cyd bod gwaith pellach ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi dod i ben oherwydd y pwyslais ar flaenoriaethau statudol a Llywodraeth eraill. Fodd bynnag, mae eu canlyniadau, eu hallbynnau a'u llinellau amser disgwyliedig yn cael eu casglu o fewn prosesau Fframwaith Llywodraethu LlC/CNC y cytunwyd arnynt sef y Cynllun Corfforaethol pum mlynedd a'r Cynlluniau Busnes blynyddol ategol. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi mai rôl y Gweinidog yw cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol a gynhyrchwyd gan CNC, nodi gweithgareddau gweithredu o fewn y Cynlluniau Busnes blynyddol a chyhoeddi llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth. Yn unol â hynny, gellir gweld manylion ardaloedd cyflawni CNC a llinellau amser ar gyfer eu gweithredu drwy gyfeirio at y Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Busnes sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Argymhelliad 48.**

Dylai’r Gweinidog gynnal trafodaethau pellach gyda CNC am effaith y gostyngiad mewn termau real mewn cyllid ar allu CNC i ddarparu ei wasanaethau. Dylai’r Gweinidog adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar ganlyniadau’r trafodaethau hyn a dylai gynnwys gwybodaeth am y meysydd gwasanaeth yr effeithir arnynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae pwysau cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn amlwg i bawb, ac nid yw'r un sefydliad yn saff rhag sgyrsiau cyllidebol anodd iawn a phenderfyniadau dilynol.

Mae Llywodraeth Cymru’n parhau i ymgysylltu'n llwyddiannus ac yn gadarnhaol â CNC wrth iddi ystyried ei gylch gwaith ac adolygu'n feirniadol yr holl weithgareddau, gan gydnabod hefyd bod cyflawni swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol yn cael blaenoriaeth.

Bydd manylion am ganlyniad ymarfer blaenoriaethu CNC ar gael maes o law drwy ei Gynllun Busnes 2024-25.

**Argymhelliad 49.**

Dylai'r Gweinidog ddiweddaru'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y cynnydd tuag at ailstrwythuro model cyllido CNC ynghylch incwm pren.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae anwadalrwydd prisiau pren a bywiogrwydd y farchnad gwerthu coed yn dylanwadu'n fawr ar allu CNC i reoli ei gyllid ac o ganlyniad yn cyfyngu ar y gweithgareddau y gall eu gwneud i reoli ei stad goedwigaeth.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda CNC i archwilio a datblygu trefniadau amgen a ddylai ddarparu sefydlogrwydd i CNC o safbwynt ariannu ei waith coedwigaeth. Y bwriad yw cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Unwaith y bydd y trefniadau hyn wedi'u cwblhau a'u cytuno, byddaf yn rhannu rhagor o fanylion gyda'r Pwyllgor.

## Dŵr a Llifogydd

**Argymhelliad 50.**

Dylai'r Gweinidog esbonio sut y bydd canfyddiadau adroddiad CNC, Gofyniad Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Amddiffynfeydd rhag Llifogydd (Ionawr 2024), yn cael eu defnyddio i helpu i lunio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol ynghylch llifogydd a rheoli risg.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ystyried casgliadau adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Gofyniad Buddsoddi Hirdymor, ochr yn ochr ag adolygiadau eraill (e.e. Adolygiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru) sydd i fod i adrodd yn fuan. Bydd timau polisi Llywodraeth Cymru'n ystyried canlyniadau'r adroddiadau hyn, gyda chymorth y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Bwrdd Rhaglen Perygl Llifogydd, i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i leihau effaith llifogydd ledled Cymru.

**Argymhelliad 51.**

Dylai'r Gweinidog esbonio sut y bydd effaith y gostyngiad yn y dyraniad refeniw ar barodrwydd perygl llifogydd a'r ymateb i ddigwyddiadau llifogydd yn y dyfodol yn cael ei fonitro.

**Ymateb: Derbyn**

Ni wnaed gostyngiadau yn y dyraniad refeniw i Awdurdodau Rheoli Risg yng Nghymru. Bydd y dyraniad refeniw ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn £225,000, a bydd y dyraniad refeniw ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i fod yn £24.5M. Mae'r sefyllfa ariannol heriol a'r pwysau sy'n wynebu'r holl wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru wedi golygu nad ydym wedi gallu cefnogi'r codiad refeniw arfaethedig o £8M a gynlluniwyd i roli risg llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM) ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 52.**

Dylai'r Gweinidog egluro'r gostyngiad o £22m yn y dyraniad cyfalaf ar gyfer 2024-25 ar gyfer rheoli perygl llifogydd a darparu polisi dŵr.

**Ymateb: Derbyn**

O 2024-25 cydnabuwyd, gan fod cyfran sylweddol o FCERM yn cael ei ddarparu drwy Gyfoeth Naturiol Cymru, y byddai'n gliriach dangos y gyllideb ar Linell Wariant Cyllideb CNC. Mae hwn yn newid cyflwyniadol. Arweiniodd cynnydd sylweddol ar gyflawni cynlluniau CNC at wario ychwanegol yn cael ei gyflwyno i flwyddyn ariannol 2023-2024. Felly, mae cyllideb CNC ar gyfer 2024-2025 wedi'i diwygio o ganlyniad i adlewyrchu'r arian sydd eisoes wedi'i dalu.

**Argymhelliad 53.**

Dylai'r Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r £40m o ddyraniad rhwng 2022-2023 a 2024-25 i wella ansawdd dŵr. Dylai hyn gynnwys y dyraniad hyd yma, camau gweithredu a gyflwynwyd, a manylion dyrannu ar gyfer 2024-25.

**Ymateb: Derbyn**

Mae dadansoddiad y dyraniad o £40m fel a ganlyn:

2022-2023- £10m
2023-2024- £15m
2024-2025- £15m

Mae'r arian wedi'i wario ar raglen waith i fynd i'r afael â rhwystrau fel y gallwn gyflawni ein dyletswyddau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i atal dirywiad a gwella pob corff dŵr i statws da erbyn 2027. Mae gwaith wedi'i gyflawni ar draws dalgylchoedd cyfle, prosiectau ar raddfa genedlaethol, adfer afonydd ac ardaloedd gwarchodedig e.e. Afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Disgwylir i'r rhaglen ar gyfer 2024-2025 gael ei chytuno'n fuan.

**Llywodraethu Amgylcheddol**

**Argymhelliad 54.**

Dylai'r Gweinidog:

- egluro'r dyraniad cyllideb ar gyfer 2024-25 ar gyfer swyddogaethau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Cymru (IEPAW). Os nad yw'r gyllideb yn cynnwys codiad o £75,000, dylai egluro'r rheswm; ac

- ymrwymo i sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gwasanaeth IEPAW tan fod y corff llywodraethu amgylcheddol newydd wedi ei sefydlu.

**Ymateb: Derbyn**

Gallaf gadarnhau bod cyllid o £120,000 wedi'i ddyrannu unwaith eto i swyddogaethau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Cymru (IEPAW) ar gyfer 2024-25. Mae'r gyllideb yn parhau i gynnwys y codiad o £75,000.